

Dechreuom ni ym mis Mawrth 2019 ar y prosiect ENYA trwy siarad yn ein grŵp am y problemau oedd yn effeithio ni fel plant. Welom ni fod hunanddelwedd yn broblem enfawr yn ein hysgol, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar ôl nifer o gyfarfodydd, cwrddon ni eto yn yr hanner tymor wedyn i weithio allan sut i gyfleu'r thema yn effeithiol, a dewision ni i wneud fideo dramatig amdano'r thema. Hefyd, dewision ni fod ysgrifennu llythyr cais oedd y ffordd fwyaf teg er mwyn dewis pa ddau fydd yn mynd i'r gynhadledd ym Mrwsel.

Tuag wythnos yn hwyrach, cwrddom ni eto yn yr ysgol er mwyn ffilmio'r fideo ar gyfer y gynhadledd. Wedyn, aethom ni yn ôl i'r dosbarth i wneud gwaith ar hunanddelwedd pawb oedd yn y grŵp. Ar ddiwedd y dydd, darganfyddwn ni pwy oedd yn mynd i'r gynhadledd; finnau a Grace. O'r pwynt yma, roedd gwaith paratoi ganddo'r ddau ohonom ni er mwyn bod yn barod am y gynhadledd. Gweithiais ar pwerbwynt wrth i Grace weithio ar sgript, a gweddill y grŵp yn golygu'r fideo. Unwaith roeddem ni'n hapus efo'r gwaith a'r prosiect yn gyfan gwbl, cawsom ni wers i fyfyrion y prosiect ac edrych yn ôl ar ein gwaith. Dyna le daeth y gwaith i ben am bawb ond am finnau a Grace.

Y tro nesaf welwn ni Rhian a Jordan oedd yng Ngorsaf Trên Abertawe. Wrth i ni baratoi am y diwrnod o'm flaenau ni, dywedon ni "hwyl fawr" i'n rhieni. Unwaith roeddem ni arno'r trêni i Baddington, ymlacion ni tamaid bach a dechreuom ni sgwrsio a chwarae efo pecyn o gardiau. Ar ôl tua thair awr o deithio, cyrhaeddwn ni'r gorsaf trêni. Cerddon ni i ôl bach o ginio cyn myn draw i Orsaf Trêni Kings Cross i fynd ar yr Eurostar. Ar ôl tua dwy awr ychwanegol o deithio, cyrhaeddwn ni Brwsel. Ar ôl gollwng ein pethau yn y gwesty, aeth y pedwar ohonom ni allan i edrych o gwmpas a chael pryd o fwyd yn y *Hard Rock Café*.

Y diwrnod nesaf, codwn ni'n gynnar i fynd am frecwast ac i gerdded tuag at y swyddfeydd le caiff y gynhadledd ei ddal. Wrth i ni gyrraedd, cwrddom ni Beckie a Matthew o'r Alban tu allan. Wedyn, ar ôl cwrdd â phawb arall, gwahanom ni mewn i dri grŵp i chwarae gemau i ddod i nabod ein gilydd. Unwaith roedd pawb wedi gorffen a'r gemau, dechreuom ni efo'r cyflwyniadau. Daeth pob gwlad â rhywbeth diddorol i'r gynhadledd, efo rhywbeth arbennig ac unigryw am bob un. Cyflwynom ar ôl pawb arall, felly teimlon ni fod y pwysau'n uchel. Aeth ein cyflwyniad bant heb broblem, efo pawb wedi syfrdanu gwnaeth y ddau ohonom ni siarad Cymraeg.

Ar ôl trafodaeth fach am y pwyntiau a godwyd yn y cyflwyniadau, a chael cinio bach, aethom ni yn ôl mewn i grwpiau i baratoi fideo. Unwaith gorffennem ni ein gwaith, dywedodd pawb "hwyl fawr" i'w gilydd am amser bach. Aethom ni, y fimoedd o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Malta i edrych o gwmpas La Grand-Place cyn swper. Wrth i finnau a Rhian aros yn y prif sgwâr i gael waffl, aeth Grace, Jordan a'r lleill i edrych ar y Manneken Pis. Cwrddon ni eto am swper efo pawb o'r gynhadledd, le wnaeth pawb dod i nabod ei gilydd yn well. Ar ôl hyn, aeth rhai o'r tимоedd i ymweld â'r *Atonium*, a wnaeth eraill mynd yn ôl i'w gwestai.

Yr ail ddiwrnod o'r genhedlaeth, dewisom ni cymryd y tram y tro yma i achub ein traed rhag mwy o gerdded. Dechreuom ni efo sesiwn cwestiynau efo gomisiynwyr plant gwledydd gwahanol amdano'u swyddi. Yna, symudom ni ymlaen i edrych ar y prif problemau codwyd pawb y diwrnod cyn yn eu cyflwyniadau a chreu argymhellion ar gyfer y comisiynwyr. Ar ôl cinio, daeth y digwyddiad i ben wrth i wledydd gwahanol adael er

mwyn mynd adref. O'r DU, aeth Aideen a Maddie o Ogledd Iwerddon yn gyntaf, a wnaethom ni a'r Alban adael gyda'n gilydd. Ar ôl taith fach ar y tram, ffarwelïom ni ein gilydd a mynd ar ein ffyrdd gwahanol.

Darganfyddwn ni dau bâr o seddi, felly eisteddom ni fel bod Rhian a Jordan tu ôl i Grace a finnau. Wrth i Rhian a Jordan wneud tamaid bach o waith, gwrandawais ar gerddoriaeth Dodie efo Grace wrth i ni sgwrsio am fywyd ac ysgol. Wrth i ni agosâi at Orsaf Caerdydd, ysgrifennom ni llythyron at ein gilydd er mwyn diolch i bawb am sut aeth y daith. Wrth i ni gyd gorffen darllen nhw, chwaraeom ni cardiau eto wrth siarad am Norman Preis a chael jôc efo'n gilydd. Wrth i ni gyrraedd Abertawe, ffarwelïom ni ein gilydd a mynd adref. Ar ddiwedd yr wythnos, wnaeth grŵp ohonom ni wneud cyfweiliad efo'r sioe S4C newyddion am blant, Ffeil. Siaradom ni am y prosiect hunanddelwedd a'r daith i Frwsel er mwyn codi ymwybyddiaeth am y problemau yma.

- Rhys James